“Pob un felly sy’n gwrando ar y geiriau hyn o’r eiddof ac yn eu gwneud, fe’i cyffelybir i un call,… A phob un sy’n gwrando ar y geiriau hyn o’r eiddof a heb eu gwneud, fe’i cyffelybir i un ffôl.”
(Mathew 7:24,26)

Dyma gymhariaeth enwog gan Iesu ar ddiwedd y Bregeth ar y Mynydd. Dyw gwrando geiriau Crist ddim yn ddigon; rhaid gweithredu os am gael sylfaen gadarn i’n bywyd.

Y geiriau hyn

Dyma sut mae Iesu’n crynhoi ei bregeth. Mae wedi ein dysgu ynglŷn â nifer o faterion pwysig:
Mae wedi dweud wrthym yn y ‘Gwynfydau’ pwy sydd dan fendith Duw.
Mae wedi dangos bod rhaid i’n perthynas â Duw fod yn llesol i eraill, fel halen a goleuni.
Mae wedi cyfeirio at Gyfraith Duw, ac wedi rhoi esboniad cywir arni a dangos bod rhaid iddi fod yn ein calonnau.
Mae wedi dysgu sut i gyflawni dyletswyddau crefyddol yn iawn, gyda golwg ar blesio Duw, ac nid gwneud argraff ar bobl.
Mae wedi’n dysgu i gadw’n bryd ar Dduw, gan roi’r nef a’r ysbrydol yn gyntaf. Yna bydd popeth arall yn dod i’w le.
Mae wedi’n hannog i geisio rhoddion da Duw a cheisio Duw ei hunan â’n holl egni ac â’n holl galon.

Dwy sylfaen

Wrth adeiladu’n bywyd yn y byd, mae pob un ohonom yn sylfaenu’n bywyd ar ryw athroniaeth neu’i gilydd. Mae Iesu’n cyfyngu’r dewis i ddau: sef, ei eiriau Ef neu unrhyw athroniaeth arall. Bydd rhai yn dilyn proffwydi, crefyddau neu sectau gwahanol; bydd eraill yn dilyn athroniaeth y byd cyfoes, beth bynnag sy’n ffasiynol ar y pryd.

Dywed Iesu bod gweithredu ei eiriau Ef yn sylfaen gadarn fel y graig, a bod peidio â’u gweithredu fel sylfaen dywodlyd iawn.

Mae’n gymhariaeth hawdd ei deall. Yn y byd adeiladu heddiw ceir ‘Rheolau Adeiladu’ eithaf llym i wneud yn siŵr bod adeiladau newydd neu estyniadau yn gadarn ac yn ddiogel. Rhaid cael sylfaen dda cyn mynd gam ymhellach, sylfaen eithaf dwfn o goncrit er mwyn i’r tŷ fedru sefyll yn y ddrycin.

Mae osgoi gosod sylfaen dda yn gallu bod yn rhatach, yn gynt ac yn

haws – ond y tebygrwydd yw y bydd yn drychinebus rywbryd hefyd.

Dau dŷ

Yn y gymhariaeth dyw Iesu ddim yn nodi unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau dŷ. Mwy na thebyg, doedd dim gwahaniaeth amlwg. Yn aml iawn mae bywyd y digred yn ymddangos yn well na bywyd y Cristion o ran moethusrwydd a llwyddiant allanol.

Tair storm

Mae Iesu'n sôn am y glaw, y llifogydd a'r gwynt, a hoffwn gymharu'r rheini â thri math o storm sy'n siŵr o ddod i ran pob un ohonom:

1. Stormydd bywyd

Mae pob un ohonom yn gwybod am y brofedigaeth o golli rhywun annwyl. Weithiau bydd rhywun yn colli iechyd neu'n colli gwaith. Weithiau mae amgylchiadau yn creu chwalfa mewn bywyd teuluol neu fywyd personol. Gall straen godi gyda chymdogion neu gydweithwyr. Mae hyn yn peri i lawer chwerwi yn erbyn pobl neu yn erbyn Duw. Mae eraill yn chwalu ac yn torri dan y straen, tra bod rhai yn diflasu ac yn colli pob gobaith. Mae Iesu am i ni brofi craig safadwy ei eiriau a'i ddysgeidiaeth o dan ein traed.

2. Storm angau

Dyma storm fydd pawb yn ei hwynebu heblaw y rhai fydd yn fyw pan ddaw Crist yn ôl. Dyma'r storm wrth i ni groesi o fyd amser i dragwyddoldeb. Yn ein dyddiau ni mae llawer yn poeni'n fawr am ddull ac amgylchiadau marwolaeth. Mae llawer yn ofni colli urddas neu ddioddef yn hir, ac mae hynny'n naturiol. Eto, mae rhywbeth pwysicach i'w ystyried, sef, a ydym yn barod ar gyfer tragwyddoldeb, a ydym yn barod i gwrdd â'n Creawdwr. Cafodd John Wesley sgytwad wrth weld Morafiaid oedd ar yr un llong ag ef yn dangnefeddus pan oedd eraill yn sgrechian ac yn gweiddi mewn storm ar y môr. Sylweddolodd fod gan y rhain sylfaen i'w bywyd nad oedd ganddo fe ar y pryd.

3.Storm y Farn

Dywed Hebreaid 9:27: **"…gosodwyd i ddynion o'r blaen eu bod i farw un waith, a bod barn yn dilyn hynny."** Dyma'r storm olaf i bob un ohonom. Mae'r Gair yn dweud y bydd pob un ohonom yn ymddangos gerbron Crist ar ddiwedd y byd. Y mater allweddol bryd hynny fydd ei adnabyddiaeth Ef ohonom. Bydd yn adnabod ei bobl, y rhai fydd wedi ymddiried ynddo a gadael iddo weithio yn eu bywydau trwy ei air a'i Ysbryd. Eto, bydd gweithredu'r Efengyl yn sylfaen gadarn.

Ai Craig yr Oesoedd yw sylfaen dy fywyd di?